



Crynodeb Ymchwil Tai

Proffil o Amgylchiadau Tai a Chymdeithasol-economaidd Pobl Dduon a'r Rhai o Dras Ethnig Lleiafrifol yng Nghymru yn 2001

Comisiynwyd y prosiect ymchwil hwn fel sail i *Strategaeth Tai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig* Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y nod yw darparu gwybodaeth gyfoes ar nodweddion y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig, tueddiadau yn y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig a phatrymau o newid tebygol yn y dyfodol. Prif ffynhonnell yr astudiaeth oedd Cyfrifiad Poblogaeth 2001, sy'n rhoi'r darlun diweddaraf o'r boblogaeth a chartrefi ar gyfer grwpiau ethnig ac ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

Y prif ganfyddiadau yw:

- Mae'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru'n gymharol fach, ond yn amrywiol dros ben.
- Mae'r boblogaeth wedi'i chanolbwyntio'n bennaf ar ddinasoedd mwyaf y De, ond ceir cymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig ym mhob rhan o Gymru.
- Mae rhai rhannau o'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn ddifreintiedig dros ben, ond ceir hefyd rhai grwpiau ethnig ffyniannus.
- Mae poblogaeth ceiswyr lloches a ffoaduriaid Cymru'n weddol fach ac wedi'i lleoli yn y dinasoedd mwyaf yn bennaf. Mae anghenion y boblogaeth hon yn wahanol i'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn gyffredinol.
- Mae nifer y bobl dros 50 oed yn y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn fach ond yn arwyddocaol. Mae'r boblogaeth fwyaf o bobl hŷn ymhlith grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig i'w chael yn y boblogaeth Garibiaidd.
- Os bydd y tueddiadau hanesyddol yn parhau, bydd y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn cynyddu i 3.2% o boblogaeth Cymru yn 2011.

1. Cyfansoddiad ethnig Cymru

Roedd poblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig Cymru'n gymharol fach o'i chymharu â gweddill y DU (2.1% o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 7.9%) yn 2001. Mae'n boblogaeth amrywiol gyda hanes hir o briodi rhwng grwpiau ethnig sydd wedi arwain at gyfran anarferol o uchel o'r boblogaeth gyda rheini cymysg neu sydd wedi eu dosbarthu fel ethnigrwydd "arall" yn y Cyfrifiad (Tabl 1). Pobl Foslemaidd yw'r lleiafrif crefyddol mwyaf, gyda chyfanswm o 21.7 mil yn 2001, sy'n cyfrif am hanner y 43.8 mil o bobl sy'n arddel crefydd heblaw Cristnogaeth a thraean y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r grŵp hwn yn amrywiol dros ben o safbwynt ei darddiad ethnig a chenedlaethol, gydag elfennau Du-Affricanaidd, Arabaidd a de-ddwyrain Asia sylweddol.

Tabl 1: Cyfansoddiad ethnig Cymru yn 2001

	Cymru			Y DU	
	Pobl	Canran o bobl Cymru	Cyfran Cymru o boblogaeth y DU	Pobl	Canran o boblogaeth population
Gwyn	2,841,507	97.9	5.2	54,153,898	92.1
<i>Rhieni cymysg</i>	<i>17,661</i>	<i>0.6</i>	<i>2.6</i>	<i>677,117</i>	<i>1.2</i>
Gwyn/Du-Caribiaidd	5,996	0.2	-	-	-
Gwyn/Du-Affricanaidd	2,414	0.1	-	-	-
Gwyn/Asiaidd	4,999	0.2	-	-	-
Gwyn/Arall	4,251	0.1	-	-	-
<i>Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig</i>	<i>25,448</i>	<i>0.9</i>	<i>1.1</i>	<i>2,331,423</i>	<i>4.0</i>
Indiaidd	8,259	0.3	0.8	1,053,411	1.8
Pacistaniaidd	8,287	0.3	1.1	747,285	1.3
Bangladeshaid	5,434	0.2	1.9	283,063	0.5
Asiaidd Arall	3,464	0.1	1.4	247,664	0.4
<i>Du neu Ddu Prydeinig</i>	<i>7,069</i>	<i>0.2</i>	<i>0.6</i>	<i>1,148,738</i>	<i>2.0</i>
Du Caribiaidd	2,597	0.1	0.5	565,876	1.0
Du Affricanaidd	3,727	0.1	0.8	485,277	0.8
Du Arall	746	0.0	0.8	97,585	0.2
<i>Tsieineaidd neu grŵp ethnig Arall</i>	<i>11,402</i>	<i>0.4</i>	<i>2.4</i>	<i>478,018</i>	<i>0.8</i>
Tsieineaidd	6,266	0.2	2.5	247,403	0.4
Arall	5,135	0.2	2.2	230,615	0.4
<i>Croenddu a Lleiafrifoedd ethnig</i>	<i>61,576</i>	<i>2.1</i>	<i>1.3</i>	<i>4,635,296</i>	<i>7.9</i>
Pob grŵp ethnig	2,903,083	100.0	4.9	5,878,919	100.0

Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Ystadegau Allweddol Tabl 6)

Roedd y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn llawer iau na'r boblogaeth wyn yng Nghymru yn 2001. Roedd oedran cymedrig y boblogaeth wyn yn 39.8 oed, o'i gymharu â 28.1 oed y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig. Ymhlith y bobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig, pobl ddu oedd yr hynaf gyda chyfartaledd o 34.6 oed, a rhai gyda rhieni cymysg oedd yr ieuengaf, a oedd yn 23 oed ar gyfartaledd. Roedd dros un o bob pump o bobl wyn, ond dim ond 6.5% o bobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig, yn

oed pensiwn. Roedd hyn yn cymharu â 10.1% o bobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig a oedd rhwng 0 i 4 oed a 21.7% rhwng 5 a 15 oed, o'i gymharu â 5.7% a 14.3% yn y drefn honno o bobl wyn. Mae natur iau y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn golygu bod, hyd at 45 oed, pob grŵp yn ffurfio cyfran uwch o'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig na'r boblogaeth wyn; mae'r patrwm yn cael ei wyrdroi dros yr oed hwnnw. (Tabl 2)

Tabl 2: Strwythur oed pob grŵp ethnig a chrefydd (canran pob grŵp ethnig a chrefydd)

	Poblogaeth	0-4 oed	5-15 oed	16-24 oed	25-44 oed	45-59/64 oed	60-65/74 oed	75+ oed
Cyfanswm y boblogaeth	2,903,083	5.8	14.4	10.9	26.6	22.2	11.8	8.3
Gwyn	2,841,505	5.7	14.3	10.8	26.5	22.4	11.9	8.4
Gwyn: Prydeinig	2,786,605	5.7	14.4	10.7	26.5	22.4	11.9	8.4
Gwyn: Gwyddelig	17,689	1.6	4.4	9.2	23.1	29.5	20.4	11.8
Gwyn Arall: Gwyn	37,211	4.4	9.7	14.8	31.5	20.5	11.4	7.7
Croenddu a Lleiafrifoedd ethnig	61,578	10.1	21.7	17.1	31.0	13.6	4.6	1.9
<i>Rhieni Cymysg</i>	<i>17,660</i>	<i>15.0</i>	<i>31.5</i>	<i>16.4</i>	<i>22.5</i>	<i>9.2</i>	<i>3.3</i>	<i>2.0</i>
Gwyn a Du Caribiaidd	5,996	14.9	34.6	15.8	21.7	7.3	3.5	2.3
Gwyn a Du Affricanaidd	2,414	15.9	26.9	15.1	25.6	11.4	3.7	1.3
Gwyn ac Asiaidd	4,999	16.2	32.7	17.2	22.1	7.7	2.7	1.6
Cymysg Arall	4,251	13.4	28.5	17.3	22.3	12.4	3.6	2.4
<i>Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig</i>	<i>25,447</i>	<i>9.6</i>	<i>19.5</i>	<i>17.7</i>	<i>32.0</i>	<i>15.1</i>	<i>4.6</i>	<i>1.5</i>
Indiaidd	8,261	6.4	14.5	18.7	35.3	18.8	5.0	1.2
Pacistaniaidd	8,287	11.0	21.6	17.6	29.3	13.1	5.5	1.8
Bangladeshaid	5,436	13.5	25.8	19.0	29.6	8.9	2.4	0.9

	Poblogaeth	0-4 oed	5-15 oed	16-24 oed	25-44 oed	45-59/64 oed	60-65/74 oed	75+ oed
Asiaidd Arall	3,463	7.7	16.4	13.5	34.5	21.0	5.0	1.9
<i>Du neu Ddu Prydeinig</i>	<i>7,070</i>	<i>6.5</i>	<i>14.8</i>	<i>14.4</i>	<i>35.5</i>	<i>15.9</i>	<i>8.8</i>	<i>4.3</i>
Du Caribiaidd	2,597	2.7	8.9	9.1	40.6	20.7	13.4	4.5
Du Affricanaidd	3,727	8.9	18.1	17.6	32.2	12.8	6.5	3.9
Du Arall	746	7.5	18.4	16.8	34.2	14.3	3.9	5.0
<i>Tsieineaidd neu Grŵp Ethnig Arall</i>	<i>11,401</i>	<i>5.8</i>	<i>15.6</i>	<i>18.4</i>	<i>39.3</i>	<i>15.8</i>	<i>3.8</i>	<i>1.3</i>
Tsieineaidd	6,266	5.7	15.4	21.4	34.2	17.1	4.8	1.5
<i>Grŵp Ethnig Arall</i>	<i>5,135</i>	<i>5.9</i>	<i>15.9</i>	<i>14.7</i>	<i>45.5</i>	<i>14.2</i>	<i>2.6</i>	<i>1.2</i>
Crefydd								
Cristnogaeth	2,087,242	4.3	13.4	9.4	24.4	24.5	14.1	10.0
Bwdhaeth	5,407	2.2	7.1	11.9	38.9	31.1	6.2	2.6
Hindŵaeth	5,433	6.2	13.0	17.6	36.0	21.3	4.7	1.2
Iddewiaeth	2,256	3.5	8.1	8.8	21.7	28.3	15.2	14.4
Moslemiaeth	21,739	11.6	23.0	17.4	31.2	12.2	3.6	1.0
Sikh	2,014	7.1	21.8	18.9	30.7	15.5	3.7	2.3
Unrhyw grefydd arall	6,909	2.0	5.8	12.5	38.2	28.8	9.0	3.7
Dim crefydd	537,935	9.1	16.7	16.5	36.3	15.6	3.9	2.0

Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 101 a 149)

Mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn byw yn ne-ddwyrain Cymru, gyda'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig fwyaf a'r amrywiaeth ethnig mwyaf yng Nghaerdydd (Tabl 3). Roedd dwy ran o bump o boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig Cymru yn byw yng Nghaerdydd. Roedd tair rhan o bump o'r bobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn byw yn y tair dinas fwyaf, gyda'r gyfran groenddu a lleiafrifoedd ethnig o'r boblogaeth ym mhob un o'r dinasoedd hyn yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Er bod pobl

groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn niferoedd bach yn y rhan fwyaf o drefi Cymru, mae cyfran y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn y rhan fwyaf o ogledd Cymru yn llawer is na'r cyfartaledd Cymreig. Y gymuned Tsieineaidd oedd â'r dosbarthiad daearyddol ehangaf (wedi eu dilyn gan y grŵp ethnig Bangladeshaid), tra bod y grwpiau ethnig Pacistaniaidd a Du ar eu mwyaf niferus yn y de-ddwyrain. Mae pobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol na phobl wyn o fyw mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd diwydiannol traddodiadol.

Tabl 3: Dosbarthiad daearyddol poblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig Cymru

Awdurdod unedol (mewn trefn ddisgynnol yn ôl eu cyfran o'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig genedlaethol)	Cyfran y boblogaeth o bob grŵp ethnig	Cyfran y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig	Canran y trigolion o grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig
CYMRU	100.0	100.0	2.1
Caerdydd	10.5	41.8	8.4
Casnewydd	4.7	10.8	4.8
Abertawe	7.7	7.8	2.1
Rhondda Cynon Taf	8.0	4.4	1.2
Bro Morgannwg	4.1	4.2	2.2
Pen-y-bont ar Ogwr	4.4	2.9	1.4
Sir Gaerfyrddin	6.0	2.6	0.9
Caerffili	5.8	2.5	0.9
Castell Nedd Port Talbot	4.6	2.3	1.1
Wrecsam	4.4	2.3	1.1
Gwynedd	4.0	2.2	1.2
Conwy	3.8	1.9	1.1
Sir y Fflint	5.1	1.9	0.8
Sir Benfro	3.9	1.8	1.0
Powys	4.4	1.7	0.8
Ceredigion	2.6	1.7	1.4
Sir Ddinbych	3.2	1.7	1.1
Sir Fynwy	2.9	1.6	1.2
Tor-faen	3.1	1.4	1.0
Blaenau Gwent	2.4	0.9	0.8
Merthyr Tudful	1.9	0.9	0.9
Ynys Môn	2.3	0.8	0.7

Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tabl Safonol 101)

Roedd myfyrwyr yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig, yn enwedig yn achos grwpiau Tsieineaidd a grwpiau ethnig Arall. Roedd bron hanner y myfyrwyr croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn byw yng Nghaerdydd, lle'r oeddent yn cyfrif am 1 o bob 8 o'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig. Yn gyffredinol, roedd 2.4% o gartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn gartrefi myfyrwyr. Roedd myfyrwyr (y tu allan i sefydliadau cymunedol) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fyw mewn llety rhent preifat gan rannu cyfleusterau. Yng Ngheredigion (gyda Phrifysgolion Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan), roedd myfyrwyr yn cyfrif am 23% o'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig.

2. Anfantais gymdeithasol ac economaidd

Nid yw'r darlun sy'n cael ei amlygu gan ddata Cyfrifiad 2001 yn fwy cymhleth o lawer na mater syml o fanteision pobl wyn ac anfantaision pobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig. Roedd dynion croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol na dynion gwyn o fod yn economaidd weithgar, er bod dynion Indiaidd a Bangladeshaidd yn dangos cyfraddau gweithgarwch economaidd uwch na dynion gwyn (Tabl 4). Dynion Du-Affricanaidd a Mwslimaidd sy'n dangos y cyfraddau gweithgarwch economaidd isaf. Roedd y cyfraddau diweithdra uchaf i'w gweld ymhlith dynion Du a Du Prydeinig, ac ymhlith dynion gyda rhieni cymysg. Roedd y cyfraddau diweithdra ar gyfer dynion Indiaidd, Tsieineaidd ac "Arall" yn is na'r rhai ar gyfer dynion gwyn.

Tabl 4: Gweithgarwch economaidd fesul grŵp ethnig, rhyw a chrefydd yng Nghymru, 2001

	Dynion		Merched	
	Canran yr economaidd weithgar	Cyfradd diweithdra	Canran yr economaidd weithgar	Cyfradd diweithdra
Dynion	67.7	7.4	54.5	4.9
<i>Gwyn</i>	<i>67.8</i>	<i>7.3</i>	<i>54.7</i>	<i>4.8</i>
<i>Prydeinig</i>	<i>67.9</i>	<i>7.3</i>	<i>54.7</i>	<i>4.8</i>
<i>Gwyddelig</i>	<i>56.4</i>	<i>8.9</i>	<i>48.3</i>	<i>5.8</i>
<i>Gwyn Arall</i>	<i>62.3</i>	<i>8.9</i>	<i>52.1</i>	<i>7.1</i>
<i>Croenddu a Lleiafrifoedd ethnig</i>	<i>65.5</i>	<i>11.1</i>	<i>46.9</i>	<i>10.4</i>
<i>Cymysg</i>	<i>63.5</i>	<i>16.3</i>	<i>54.7</i>	<i>11.2</i>
<i>Gwyn a Du Caribiaidd</i>	<i>63.3</i>	<i>19.6</i>	<i>56.4</i>	<i>12.5</i>
<i>Gwyn a Du Affricanaidd</i>	<i>66.6</i>	<i>13.6</i>	<i>55.5</i>	<i>12.9</i>
<i>Gwyn ac Asiaidd</i>	<i>65.3</i>	<i>13.3</i>	<i>53.3</i>	<i>9.3</i>
<i>Cymysg Arall</i>	<i>60.0</i>	<i>17.4</i>	<i>53.5</i>	<i>10.5</i>
<i>Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig</i>	<i>69.1</i>	<i>8.5</i>	<i>39.1</i>	<i>12.0</i>
<i>Indiaidd</i>	<i>70.7</i>	<i>5.7</i>	<i>53.7</i>	<i>8.5</i>
<i>Pacistaniaidd</i>	<i>65.7</i>	<i>12.5</i>	<i>29.9</i>	<i>15.3</i>
<i>Bangladeshaidd</i>	<i>70.5</i>	<i>7.8</i>	<i>23.0</i>	<i>24.0</i>
<i>Asiaidd Arall</i>	<i>70.4</i>	<i>8.8</i>	<i>43.0</i>	<i>9.7</i>

	Dynion		Merched	
	Canran yr economaidd weithgar	Cyfradd diweithdra	Canran yr economaidd weithgar	Cyfradd diweithdra
<i>Du neu Ddu Prydeinig</i>	58.2	18.1	49.5	12.4
Du Caribiaidd	63.4	16.2	59.0	8.2
Du Affricanaidd	53.1	20.1	40.0	17.6
Du Arall	60.5	18.7	58.2	11.8
<i>Tsieineaidd neu Grŵp Ethnig Arall</i>	64.5	7.3	51.7	6.5
Tsieineaidd	63.4	6.3	55.7	5.6
Grŵp Ethnig Arall	66.1	8.7	47.5	7.5
Crefydd				
Cristnogaeth	64.3	6.0	51.6	3.8
Bwdhaeth	63.2	9.6	50.0	7.8
Hindŵaeth	70.2	3.4	51.0	6.6
Moslemiaeth	60.8	10.9	25.6	15.9
Sikh	64.8	6.8	44.6	7.9
Iddewiaeth	61.1	6.6	48.4	5.8
Arall	61.3	16.4	46.7	9.4
Dim Crefydd	71.2	9.4	55.8	7.3

Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 108 a 153)

Y prif gyferbyniad rhwng merched gwyn a merched croenddu a lleiafrifoedd ethnig oedd y gyfran llawer is o ferched Bangladeshaidd a Phacistaniaidd (a Moslemaidd) a oedd yn economaidd weithgar. Roedd y gyfradd ddiweithdra ymhlith merched croenddu a lleiafrifoedd ethnig tua dwywaith yn fwy nag ydoedd ymhlith merched gwyn, ac roedd ar ei uchaf ymhlith merched Bangladeshaidd, Affricanaidd a Phacistaniaidd.

Roedd y gyfradd ddiweithdra ar gyfer pobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig 1.7 gwaith yn uwch yn 2001 na'r gyfradd ar gyfer pobl wyn. Roedd pobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig a oedd yn byw yng Nghasnewydd a Chaerdydd yn profi gyfradd ddiweithdra a oedd ddwbl y

gyfradd ar gyfer pobl wyn.

Roedd pobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol na phobl wyn o fod yn gweithio yn y diwydiant gweithgynhyrchu, ond yn llawer mwy tebygol o weithio mewn gwestai a bwytai ac yn y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Roedd y gwasanaethau sector cyhoeddus yn cyflogi 30.7% o bobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig a 35.7% o bobl Ddu. Yn achos pobl Asiaidd, cyfanwerthu, mânwerthu a bwytai a gwestai oedd y prif ffynonellau gwaith. Roedd dros draean y bobl Tsieineaidd ac Arall yn gweithio mewn gwestai a bwytai.

Roedd canran uwch na'r cyfartaledd o bobl Asiaidd ac Asiaidd Brydeinig a Tsieineaidd a grwpiau ethnig Arall yn gweithio fel

rheolwyr ac uwch swyddogion. Roedd canran y bobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig mewn *galwedigaethau proffesiynol* bron ddwbl y ganran ar gyfer pobl wyn, gyda dros chwarter y bobl Asiaidd ac Asiaidd Brydeinig sy'n gweithio yn y math hon o swydd. Roedd meddygon yn cyfrif am ganran uchel o'r gweithwyr hyn, gyda 17.9% o bobl Asiaidd a 9% o bobl Foslemaidd yn cael eu cyflogi fel "gweithwyr iechyd proffesiynol". Roedd pobl ddu, pobl â rhieni cymysg a Tsieineaid a phobl o grwpiau "Arall" yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod mewn swyddi *proffesiynol a thechnegol cysylltiedig*, megis "gweithwyr iechyd a lles proffesiynol cysylltiedig" (sy'n cynnwys nyrsys). Dim ond pobl Tsieineaid ac Arall (yn gweithio yn y diwydiannau tecstilau, argraffu a swyddi crefftus eraill) oedd yn fwy tebygol na phobl wyn o weithio mewn *swyddi crefftus*. Roedd pobl Ddu a Du Prydeinig a phobl â rhieni cymysg yn fwy tebygol na phobl o grwpiau ethnig eraill i weithio yn y galwedigaethau gwasanaeth personol, a galwedigaethau gwerthu yw'r pwysicaf i grwpiau ethnig Asiaidd ac Asiaidd Brydeinig a phobl Foslemaidd. Mae pobl wyn yn fwy tebygol na phobl o grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig i fod yn *weithredwyr prosesau, offer a pheiriannau*, ond mae canran uwch o bobl â rhieni cymysg, pobl Ddu a Du Prydeinig a phobl Foslemaidd yn gweithio mewn *galwedigaethau elfennol*.

At ei gilydd, roedd gan 30.9% o bobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig rhwng 16 a 74 oed gymwysterau addysgol lefel uwch, tra bod 33.5% heb unrhyw gymwysterau (o'i gymharu â 17.1% a 40.4% yn y drefn honno yn achos pobl wyn). Roedd gan oddeutu hanner y bobl Indiaidd, Asiaidd Arall a grwpiau Arall gymwysterau uchel, ond roedd pobl Pacistaniaidd a Bangladeshaid yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod heb unrhyw gymwysterau.

Dangosydd arall o angen economaidd yw nifer y plant sy'n byw mewn tlodi. Roedd canran llawer uwch o blant croenddu a lleiafrifoedd ethnig (21.9%) na phlant gwyn (13.6%) yn byw mewn cartrefi lle nad oedd y penteulu erioed wedi gweithio, a oedd yn ddi-waith tymor hir neu mewn gwaith na ellir ei ddsbarthu. Roedd dros chwarter y plant Caribiaidd a thraean y plant Affricanaidd yn byw mewn cartrefi o'r fath. Roedd y penteulu yng nghartref tua dau o bob pum plentyn dibynnol yn perthyn i'r grwpiau galwedigaethol isaf (galwedigaethau lled-gyffredin a chyffredin) neu a oedd y tu allan i'r gweithlu. Roedd y cartrefi hyn yn cynnwys dros hanner y plant dibynnol o grwpiau ethnig Affricanaidd, Caribiaidd a Phacistaniaidd a thri o bob pump o blant dibynnol Bangladeshaid a Du-Arall. Mewn cyferbyniad i hyn, dim ond chwarter y plant dibynnol Indiaidd a Tsieineaid oedd yn byw mewn cartref lle'r oedd y penteulu yn gwneud gwaith a oedd yn perthyn i'r grwpiau galwedigaethol gyda'r statws isaf.

Plant Indiaidd oedd y mwyaf tebygol, a phlant Bangladeshaid oedd y lleiaf tebygol, o fod yn byw mewn cartref lle'r oedd y penteulu mewn galwedigaeth reoli neu broffesiynol. Plant o grwpiau ethnig De Asia a Tsieineaid oedd y mwyaf tebygol o fyw mewn cartref lle'r oedd y penteulu'n gyflogwr bach neu'n rhedeg eu busnes eu hunain. Plant gwyn neu Fagladeshi oedd fwyaf tebygol o fyw mewn cartref lle'r oedd y penteulu'n gweithio mewn galwedigaeth oruchwylio neu dechnegol is. Roedd hanner y plant Hindŵ'n byw mewn cartrefi lle'r oedd y penteulu'n rheolwr neu mewn swydd broffesiynol, ond roedd dros hanner y plant Moslemaidd yn byw mewn cartref lle'r oedd y penteulu mewn gwaith lled-gyffredin neu gyffredin neu y tu allan i'r farchnad lafur.

3. Cartrefi a mathau o deuluoedd

Yn 2001, roedd 43.5% o gartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig (o'i gymharu â 31.4% o bob cartref yng Nghymru) yn deuluoedd gyda phlant. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau sylweddol rhwng gwahanol grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig. Roedd dau o bob pump o gartrefi Asiaidd ac Asiaidd Brydeinig a dros draean y cartrefi Tsieineaidd ac eraill yn gyplau gyda phlant, ond dim ond 21.7% o gartrefi Du a Du Prydeinig a 21% o gartrefi gyda rhieni cymysg a oedd o'r math hwn. Roedd teuluoedd rhieni unigol yn llai cyffredin na'r cyfartaledd ymhlith cartrefi Asiaidd ac Asiaidd Brydeinig ond yn llawer mwy cyffredin yn achos cartrefi Du-Caribiaidd neu rieni cymysg.

Roedd pensynwyr unigol a chyplau oed pensiwn tua thraean yr un mor gyffredin yn y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig nag yn y boblogaeth wyn. Ymhlith grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig, roedd canran y cyplau heb blant yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pobl Indiaidd, tra

bod y canran hwn yn isel iawn yn achos pobl Bacistaniaidd, Affricanaidd ac (yn enwedig) pobl Fagladeshaidd. Roedd canran y cartrefi a oedd yn cynnwys oedolion yn byw ar eu pen eu hunain yn arbennig o uchel yn achos pobl o grwpiau ethnig Du a Du Prydeinig, pobl â rhieni cymysg a'r grŵp ethnig "Arall". Roedd cartrefi o fyfyrwyr yn llawer mwy cyffredin ymhlith grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig nag ymhlith pobl wyn, ac roedd yn arbennig o gyffredin ymhlith y grwpiau Tsieineaidd a grwpiau ethnig Arall, ac yn achos grwpiau ethnig Du-Affricanaidd ac Indiaidd.

Ar gyfartaledd, roedd cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn fwy o ran nifer yr aelodau na chartrefi gwyn (3.6 o bobl o'i gymharu â 2.8 o bobl). Roedd y teuluoedd mwyaf eu maint mewn teuluoedd lle'r oedd y penteulu â rhieni cymysg, tra bod teuluoedd Du a Du Prydeinig yn llai na theuluoedd gwyn. Roedd gan rieni unigol gyda rhieni cymysg deuluoedd mawr, gyda maint y teulu'n 5.4 o bobl ar gyfartaledd.

4. Daliadaeth a Math o Dai

Tabl 5: Math o ddaliadaeth cartrefi pob grŵp ethnig a chrefydd
(canran o gartrefi o bob grŵp ethnig)

	Pob Cartref	Perchnogion	Rhentu gan y cyngor	Rhentu cymdeithasol arall	Rhentu gan y sector preifat neu'n byw'n ddi-rent
Cyfanswm	1,209,047	71.3	13.7	4.2	10.8
<i>Gwyn</i>	<i>1,190,399</i>	<i>71.5</i>	<i>13.8</i>	<i>4.1</i>	<i>10.6</i>
Prydeinig	1,164,985	71.7	13.8	4.1	10.4
Gwyddelig	9,436	65.2	14.4	5.5	14.9
Gwyn Arall	15,978	64.7	10.6	3.9	20.8
Grwpiau lleiafrifoedd ethnig	18,648	58.2	11.6	7.3	23.0
<i>Cymysg</i>	<i>4,432</i>	<i>50.7</i>	<i>19.1</i>	<i>10.2</i>	<i>20.0</i>
Gwyn a Du Caribiaidd	1,493	46.5	23.1	13.6	16.8

	Pob Cartref	Perchnogion	Rhentu gan y cyngor	Rhentu cymdeithasol arall	Rhentu gan y sector preifat neu'n byw'n ddi-rent
Gwyn a Du Affricanaidd	709	47.5	23.7	9.9	18.8
Gwyn ac Asiaidd	1,042	58.1	13.7	7.2	21.0
Cymysg Arall	1,188	51.3	16.0	8.9	23.7
<i>Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig</i>	<i>7,472</i>	<i>67.0</i>	<i>6.4</i>	<i>4.8</i>	<i>21.8</i>
Indiaidd	2,762	66.3	3.8	3.0	26.9
Pacistaniaidd	2,178	72.5	6.8	5.0	15.7
Bangladeshaid	1,231	62.8	10.0	8.5	18.7
Asiaidd Arall	1,301	63.1	7.8	4.9	24.2
<i>Du neu Ddu Prydeinig</i>	<i>3,073</i>	<i>48.6</i>	<i>19.6</i>	<i>12.6</i>	<i>19.2</i>
Du Caribiaidd	1,464	58.7	18.9	10.5	11.9
Du Affricanaidd	1,300	38.2	19.5	14.5	27.9
Du Arall	309	44.3	23.9	15.2	17.2
<i>Tsieineaidd ac Arall</i>	<i>3,671</i>	<i>57.3</i>	<i>6.2</i>	<i>4.2</i>	<i>32.3</i>
Tsieineaidd	1,999	71.3	4.6	1.9	22.3
Grŵp Ethnig Arall	1,672	40.6	8.1	7.1	44.1
Crefydd					
Cristnogaeth	892,157	74.1	13.1	3.7	9.1
Bwdhaeth	2,666	60.4	9.0	4.8	25.8
Hindŵaeth	1,861	66.1	2.8	2.7	28.4
Iddewiaeth	1,139	75.0	5.8	4.8	14.4
Moslemiaeth	5,985	58.8	10.1	8.5	22.6
Sikh	615	71.9	7.6	3.7	17.1
Arall	3,620	56.7	13.5	6.5	23.3
Dim	86,551	66.2	16.6	4.8	12.3

Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 2001 (Tablau Safonol 111 a 156)

Ar gyfartaledd, roedd cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartref na chartrefi gwyn (58.2%, o'i gymharu â 71.5% o gartrefi gwyn), ond roeddent yn llai tebygol hefyd o fod yn byw mewn cartref a oedd yn cael ei rentu gan yr awdurdod lleol (11.6% o'i gymharu â 13.8%; Tabl 5). Roedd cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig fwy na dwywaith yn fwy tebygol na chartrefi gwyn o fod yn byw mewn cartref a oedd yn cael ei rentu gan y sector preifat ac roeddent yn fwy tebygol hefyd o fod yn byw mewn cartref a oedd yn cael ei ddarparu gan gymdeithasau tai a landlordiaid cymdeithasol eraill.

Roedd gwahaniaethau sylweddol rhwng gwahanol grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig:

- Roedd dwy ran o dair o gartrefi Asiaidd ac Asiaidd Brydeinig yn berchen ar eu cartref, tra bod hynny'n wir am ddim ond hanner y cartrefi gyda'r penteulu'n o grŵp Du neu Ddu Prydeinig neu â rhieni cymysg.
- Roedd grwpiau ethnig Du neu Ddu Prydeinig neu â rhieni cymysg yn fwy tebygol na grwpiau ethnig cyffredinol eraill o fod yn byw mewn llety dan rent, yn enwedig llety'n cael ei rentu gan yr awdurdod lleol a landlordiaid cymdeithasol eraill.
- Roedd cartrefi o grwpiau ethnig Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig yn llai tebygol na rhai o grwpiau ethnig eraill o fyw mewn cartref yn cael ei rentu gan landlord cymdeithasol ond yn fwy tebygol o fyw mewn cartref a oedd yn cael ei rentu gan y sector preifat.
- Roedd cartrefi Pacistaniaidd a Tsieineaidd yn fwy tebygol na chartrefi croenddu a

lleiafrifoedd ethnig eraill o fod yn berchen-feddianwyr (canran debyg i gartrefi gwyn).

- Cartrefi lle mae'r penteulu'n perthyn i grŵp ethnig "Arall", Du-Affricanaidd ac Asiaidd-Arall yw'r mwyaf tebygol o fyw mewn cartref sy'n cael ei rentu gan y sector preifat.

Ymhlith cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig, roedd 38.9% o'r rhai a oedd yn byw mewn cartref a oedd yn cael ei rentu gan landlordiaid cymdeithasol yn deuluoedd riant unigol. Yn y sector rhentu preifat, roedd pobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig (37.3%) fwy na dwywaith yn fwy tebygol na phobl wyn o fod yn byw mewn teuluoedd cwpl priod gyda phlant dibynnol.

Roedd amrywiadau mawr yn naliadaeth tai cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig rhwng yr awdurdodau unedol yng Nghymru:

- Yn Sir Fynwy, Sir y Fflint, Caerffili, Conwy a Bro Morgannwg, roedd dros ddwy ran o dair yn berchen-feddianwyr.
- Roedd y canran a oedd yn rhentu gan awdurdodau lleol uchaf ym Mlaenau Gwent a Thor-faen.
- Roedd y canran a oedd yn rhentu gan landlordiaid cymdeithasol eraill uchaf yn nhair dinas y De (9.5% yng Nghaerdydd), a Wrecsam.
- Roedd cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig fwyaf dibynnol ar landlordiaid o'r sector preifat am eu cartref yng Ngheredigion, lle'r oedd 51.1% yn byw mewn llety a oedd yn cael ei rentu gan y sector preifat, ac mewn ardaloedd gwledig fel Sir Ddinbych a Phowys, ac wedyn Wrecsam.

Roedd cartrefi o grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na chartrefi gwyn o fyw mewn tai teras (33.8% o'i gymharu â 29.2%) a fflatiau (12.6% o'i gymharu â 7.8%) ac yn llai tebygol na theuluoedd gwyn o fyw mewn tai sengl (21% o'i gymharu â 27.1%) a thai pâr (23.5% o'i gymharu â 32.5%). Cartrefi Du a Du Prydeinig a chartrefi gyda rhieni cymysg oedd fwyaf tebygol o fyw mewn fflatiau, a chartrefi Du, Pacistaniaidd a Bangladeshaidd oedd fwyaf tebygol o fyw mewn tai teras. Ar y llaw arall, roedd cartrefi Indiaidd, Asiaidd-Arall, "Arall" a Tsieineaidd yn fwy tebygol na chartrefi gwyn o fyw mewn tai sengl.

5. Cyflwr Tai

- Roedd cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn llawer mwy tebygol o brofi amddifadedd tai na chartrefi gwyn (20.3% o'i gymharu ag 11.3%).
- Roedd cyfraddau amddifadedd tai uchaf ymhlith cartrefi Bangladeshaidd (31.7 y cant) a Du-Affricanaidd (27.6 y cant).
- Yn gyffredinol, roedd 4.4% o bob cartref yn byw mewn cartref lle oedd nifer yr ystafelloedd yn llai na'r hyn oedd ei angen ar y teulu. Roedd gorlenwi yn llawer mwy difrifol ymhlith grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig nag ymhlith cartrefi gwyn, gyda 15.5% o gartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn cartref heb ddigon o ystafelloedd.
- Teuluoedd Tsieineaidd a grwpiau ethnig Arall oedd yn profi'r gorlenwi gwaethaf, gyda bron un o bob pum cartref yn byw mewn llety heb ddigon o ystafelloedd.
- Cartrefi gyda rhieni cymysg a Charibiaidd oedd leiaf tebygol o fod yn orlawn. Roedd gorlenwi yn fwy difrifol ymhlith grwpiau ethnig Du-Affricanaidd ac Asiaidd.

- Roedd bron i draean y bobl Bangladeshaidd a chwarter rhai Du-Affricanaidd yn byw mewn cartrefi heb ddigon o ystafelloedd, tra bod un o bob pump o bobl Pacistaniaidd ac Asiaidd-Arall yn byw mewn amgylchiadau gorlawn.
- Roedd cartrefi Moslemaidd a Sikh yn fwy tebygol na rhai o grwpiau crefydd eraill o fyw mewn cartref heb ddigon o ystafelloedd i'r teulu.
- Roedd gorlenwi fwyaf cyffredin yn y sector rhent preifat, lle'r oedd chwarter y cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn cartref gyda llai o ystafelloedd na sydd eu hangen; mae un o bob pump o deuluoedd croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn cartref gorlawn sy'n cael ei rentu gan landlordiaid cymdeithasol.
- Roedd cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig (5.6%) yn llai tebygol na chartrefi gwyn (7.5%) o fyw mewn cartref heb wres canolog. Roedd teuluoedd Pacistaniaidd, Bangladeshaidd, Du-Affricanaidd a Du-Caribiaidd yn fwy tebygol na chartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig o fod heb wres canolog yn eu cartref.

Roedd canran y cartrefi gwyn a oedd yn profi amddifadedd tai ar ei uchaf yng Ngwynedd (24.6%) ac ar ei isaf yng Nghaerffili (6.6%). Roedd canran y cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig a oedd yn profi amddifadedd ar ei uchaf yng Ngheredigion (31.1%). Mae cyfraddau'r cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig sy'n profi amddifadedd yn dueddol o fod yn uchel mewn awdurdodau unedol gyda Phrifysgolion (e.e. Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan yng Ngheredigion a Bangor yng Ngwynedd), lle mae myfyrwyr yn cyfrif am ganran uchel o'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig.

6. Y boblogaeth ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru

Ym 1997, amcangyfrifwyd bod y boblogaeth ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru'n 1016 o gartrefi a oedd yn cynnwys 3565 o bobl, gyda 67% ohonynt yn byw yng Nghaerdydd, ac 16% arall yng Nghasnewydd a 12% yn Abertawe. Roedd 70% o'r holl ffoaduriaid yn Somaliaid.

Mae ceiswyr lloches wedi cael eu gwasgaru i Gymru gan y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS) ers mis Mai 2001. Mae bron y cyfan ohonynt yn cael eu gwasgaru ar delerau "cynhaliath yn unig", ac maent yn derbyn cynhaliath a llety gan NASS ac nid ydynt yn cael dewis lle maent yn byw. Y prif ganfyddiadau am y boblogaeth hon yw:

- Mae'r nifer sy'n derbyn cefnogaeth NASS wedi cynyddu o 1.8 mil ar ddiwedd 2002 i 2.6 mil erbyn dechrau 2004. Roedd 20% yn fwy o ddynion na merched yn y cyfanswm hwn.
- Ar ddechrau 2004, roedd 1153 yng Nghaerdydd (44.1% o gyfanswm Cymru), 930 yn Abertawe (35.6%), 420 yng Nghasnewydd (16.1%) a 61 yn Wrecsam (2.3%). Ym mis Mawrth 2004, dim ond 133 o geiswyr lloches oedd yng Nghymru a oedd wedi symud yno o'u gwirfodd, gyda 64% yn byw yn y pedair 'ardal glwstwr'
- Yn Rhagfyr 2003, roedd Somaliaid yn cyfrif am 13.3% o'r ceiswyr lloches, yna Pacistaniaid (10.2%), Iraciaid (9.6%), ac Iraniaid (7.9 %).
- Ym mis Mawrth 2004, roedd 21.3% o'r ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain, cyrhaeddodd 35.9% mewn grwpiau o 3 i 4 o bobl a chyrhaeddodd 33% mewn grwpiau mwy. Dim ond 51% o'r ceiswyr

lloches yng Nghymru a oedd derbyn cefnogaeth NASS oedd yn oedolion sengl.

- Arabeg (14.3%), Slofaceg (11.6%), Wrddw (8.5%), Saesneg (8.1%), Ffarsi (7.1%) a Ffrangeg (6.4%) oedd yr ieithoedd mwyaf cyffredin ymhlith ceiswyr lloches ym Mawrth 2004.

7. Pobl Groenddu a lleiafrifoedd hŷn

Roedd cyfanswm o 9.1 mil o bobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig dros 50 oed a 3.3 mil dros 65 oed yn 2001, sy'n cynrychioli 0.9% o'r holl bobl dros 50 a 0.7% o'r holl bobl dros 65 oed. Roedd pobl dros 50 oed yn cyfrif am 14.7% o'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig, ond bron i chwarter (23.2 y cant) o'r bobl Ddu a Du Prydeinig. Roedd pensïynwyr yn byw ar eu pen eu hunain yn cyfrif am 10.5% o gartrefi Du-Caribiaidd a 10.9% o gartrefi Du-Affricanaidd.

Mae lefelau iechyd yn dueddol o ddirywio gydag oed. Roedd bron i draean y bobl 50 i 64 oed a thri o bob pump o bobl 65 oed a hŷn yn dioddef o broblem iechyd hirdymor yn 2001. Roedd lefelau iechyd merched croenddu a lleiafrifoedd ethnig a dynion croenddu a lleiafrifoedd ethnig hŷn yn is na phobl wyn o'r un grŵp oed. Roedd pobl Tsieineaidd yn profi cyfraddau salwch llawer is a gwell lefelau o iechyd cyffredinol na phobl o grwpiau ethnig eraill.

Mae canran y boblogaeth sy'n weithgar yn y farchnad lafur yn gostwng yn gyflym gydag oed yn achos pobl dros 50 oed. Roedd dynion o grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig dros 50 oed yn dangos cyfraddau gweithgarwch uwch na dynion gwyn yn 2001, tra bod merched croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn dangos cyfraddau gweithgarwch is na merched gwyn.

Dynion o grwpiau ethnig Indiaidd, Asiaidd-Arall, Arall a Tsieineaidd oedd yn dangos y cyfraddau gweithgarwch economaidd uchaf, a dynion â rhieni cymysg, a dynion o grwpiau ethnig Du-Affricanaidd, Bangladeshaid a Du-Caribiaidd oedd yn profi'r cyfraddau gweithgarwch economaidd isaf. Roedd y cyfraddau gweithgarwch economaidd uchaf i'w gweld ymhlith merched gwyn, Du-Caribiaidd ac Indiaid, ond roeddent yn isel iawn ymhlith merched Pacistaniaidd a Bangladeshaid.

8. Newidiadau yn y boblogaeth a thueddiadau ar gyfer y dyfodol

Mae gan Gymru un o'r poblogaethau croenddu a lleiafrifoedd ethnig mwyaf hirhoedlog yn y DU. Mae'n debyg bod y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig oddeutu 8 mil cyn yr Ail Ryfel Byd, gan godi i 61.6 mil yn 2001. Mae'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig wedi parhau i fod ar ei mwyaf dwys yng Nghaerdydd ac ardaloedd diwydiannol y De.

Rhwng 1981 a 1991, bu cynnydd o 2.4% ym mhoblogaeth wyn Cymru, ond cynyddodd y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig 31.1% neu 10.2 mil o bobl (roedd y cynnydd ar ei fwyaf ymhlith pobl Fagladeshaidd a Phacistaniaidd). Mae data o'r Cyfrifiad ar gyfer 1991 a 2001 a gyhoeddwyd yn datgelu bod y boblogaeth wyn wedi cynyddu 1.7% a bod y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig wedi tyfu 48.2% rhwng 1991 a 2001. Cynyddodd y boblogaeth Ddu a Du Prydeinig 63.1%, a'r boblogaeth Tsieineaidd ac Arall 49.4%, tra bod y boblogaeth Asiaidd ac Asiaidd Brydeinig wedi tyfu 38.1%.

Derbyniodd Caerdydd a Chasnewydd dros hanner cyfanswm y cynnydd yn y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru rhwng 1991 a 2001. Yn ninasoedd a threfi eraill De Cymru, gwnaeth y twf yn y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig iawn am y gostyngiad yn y boblogaeth wyn.

Pe bai'r poblogaethau croenddu ac ethnig yn cynyddu ar yr un raddfa rhwng 2001 a 2011:

- byddai'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn cynyddu o 61,576 yn 2001 i 91,269 yn 2011 (byddai'n cyfrif am 3.2% o boblogaeth Cymru);
- Σyr elfen fwyaf fydd y twf yn nifer y bobl â rhieni cymysg, ac o grwpiau ethnig "Arall";
- byddai nifer y bobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig 60 oed yn cynyddu 1.9 mil (38.2%);
- byddai cyfran y bobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth sy'n 60 oed a hŷn yn cynyddu o 0.75% i 1%.

9. Casgliadau ac argymhellion

Mae poblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig Cymru'n gymharol fach ond mae'n amrywiol dros ben. Er bod y cymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn parhau i fod fwyaf dwys yn ne-ddwyrain Cymru (lle mae cyfran y trigolion a'u hamrywiaeth ethnig ar eu mwyaf amlwg), erbyn hyn ceir cymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys trefi

bach gwledig a threfi glan môr. Mae pobl o darddiad Croenddu ac Asiaidd yn cyfrif am gyfran uwch o'r boblogaeth yn y dinasoedd mawr, ond mae pobl â rhieni cymysg ac o grwpiau ethnig "Arall" yn fwy amlwg mewn trefi llai. Mewn trefi Prifysgol, mae myfyrwyr yn cynrychioli cyfran helaeth o'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn llawer iau na'r boblogaeth wyn, ac ar gyfartaledd mae maint y cartrefi a'r teuluoedd yn fwy. Bydd y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn parhau i dyfu'n gyflym, a bydd yn datblygu i fod yn fwy amrywiol dros amser. Bydd nifer yr henoed croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn cynyddu'n gyflym.

- Felly, mae'n rhaid i ddarparwyr tai ym mhob rhan o Gymru roi ystyriaeth i anghenion cymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig, a chydabod amrywiaeth y cymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig lleol.
- Dylai asesiadau o anghenion tai pobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig wahaniaethu rhwng anghenion y myfyrwyr a'r trigolion croenddu a lleiafrifoedd ethnig parhaol (yn anffodus, nid oes modd gwneud hyn gyda data'r Cyfrifiad).

- Dylai darparwyr tai sylweddoli y bydd y boblogaeth groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn parhau i dyfu ac y bydd yn mynd yn fwy amrywiol dros amser.

At ei gilydd mae pobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig yn ddifreintiedig o'i gymharu â'r boblogaeth groenwyn, ond mae amrywiadau mawr rhwng grwpiau ethnig. Ymhlith pobl groenddu a lleiafrifoedd ethnig, y lleiaf difreintiedig yw grwpiau ethnig Indiaidd a Tsieineaidd a'r mwyaf difreintiedig yw pobl Ddu-Caribiaidd, Pacistaniaidd a Bangladeshaid. Mae cartrefi croenddu a lleiafrifoedd ethnig yn profi cyfradd uwch o amddifadedd tai na chartrefi pobl wyn, ond mae gwahaniaethau rhwng grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig o safbwynt lefel yr anfantais.

- Felly, dylai darparwyr tai gydnabod amrywiaeth yr anghenion tai ac anghenion eraill ymhlith grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig.
- Bydd angen cynyddol i ddarparwyr tai a gofal cymdeithasol roi ystyriaeth i anghenion henoed croenddu a lleiafrifoedd ethnig, er y byddant yn parhau i gynrychioli cyfran fach iawn o'r boblogaeth hŷn.



Mae'r adroddiad a chopiau pellach o'r crynodeb hwn ar gael oddi wrth:

Helen Wyatt

Uned Ymchwil a Gwybodaeth

Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays

CAERDYDD CF10 3NQ

Ffôn: (029) 2082 1718

E-bost: helen.wyatt@Wales.gsi.gov.uk

Gwefan: <http://www.tai.cymru.gov.uk>

ISBN: 0 7504 3813 4

© Hawlfraint y Goron 2005

Mai 2005